

## Tasg 4

(Estynnol, sbardun 1)

Mae T. Llew Jones yn defnyddio **brawddegau byrion** (hyd at chwe gair) yn aml yn y darn hwn. Gwnewch restr ohonynt a phenderfynwch beth yw effaith y frawddeg fer, neu fwriad yr awdur wrth ei defnyddio.

Lluniwch dabl fel hwn. Mae un enghraifft wedi'i gwneud:

Brawddeg fer	Effaith y frawddeg / Bwriad yr awdur
Glaw, glaw, glaw!	Dangos ei bod hi wedi bwrw ers amser a bod Ledi Eluned wedi cael llond bol ar y glaw.